Canllawiau Ychwanegol ar gyfer

# Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Moch) 2025

Fersiwn 1.0

Cyhoeddwyd: 19 June 2025

# Cynnwys


Gwybodaeth Gefndir ..... 3
- Contractau Prynu Moch (Rhannau 2 a 3 FDOP25) ..... 6
  - Gofyniad i ddefnyddio contract prynu moch ysgrifenedig ..... 6
  - Hysbysiad i ddatgymhwyso'r rheoliadau ..... 7
  - Fformat a hyd contractau prynu moch ..... 8
- Prisio a Thalu (Rhan 4 FDOP25) ..... 9
  - Telerau talu ..... 9
  - Strwythurau talu ..... 9
  - Contractau prisiau sefydlog ..... 10
  - Contractau prisiau amrywiol ..... 10
- Y nifer i'w cyflenwi (Rhan 5 FDOP25) ..... 12
- Amrywiol (Rhan 6 FDOP25) ..... 13
  - Casglu neu ddanfon moch ..... 13
  - Force Majeure ..... 13
  - Hysbysiadau o dan gontract prynu moch ..... 14
  - Amrywiad o'r Telerau ..... 14
- Datrys Anghydfod (Rhan 7 y FDOP25) ..... 15
- Terfynu (Rhan 8 FDOP25) ..... 15
  - Terfynu contractau bytholwyrdd neu sefydlog o 12 mis neu fwy ..... 15
  - Terfynu Ar Unwaith ..... 16
- Rhestr Termau ..... 17

## Gwybodaeth Gefndir

1. Cyflwynwyd Deddf Amaethyddiaeth 2020 bwerau i greu rheoliadau sy'n gwarchod cynhyrchwyr yn y DU rhag triniaeth annheg yn y gadwyn gyflenwi. Yn dilyn hyn, rydym wedi ymgysylltu â nifer o sectorau yn y diwydiant amaethyddiaeth i'n helpu i ddeall lle mae angen diwygiadau.
2. Cyflwynwyd y gyfres gyntaf o reoliadau yn y sector llaeth yn 2024. Yn ystod eu datblygiad, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos yn y sector moch ym mis Gorffennaf 2022 i gasglu barn cynhyrchwyr a phrynwyr am y materion sy'n gysylltiedig â thegwch a thryloywder a mesurau posibl i'w gwella.
3. Dangosodd ymatebion yr ymgynghoriad yn glir yr angen am ymyrraeth reoleiddiol yn y sector moch, a chynhaliwyd ymgysylltiad pellach â'r diwydiant i ddatblygu cynigion a oedd yn gymesur ac ymarferol. Rydym wedi ceisio amddiffyn a hyrwyddo arferion sy'n dda i gynhyrchwyr, prynwyr a defnyddwyr, a dim ond lle mae potensial ar gyfer arferion annheg yr ydym wedi cynnig rheoliadau.
4. Mae Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Moch) 2025 ("FDOP25") yn cael eu creu gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 (adran 29) i osod rhwymedigaethau newydd ar brynwyr busnesau sy'n cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol mewn perthynas â chontractau a wnânt.
5. Bydd FDOP25 yn dod i rym yn y DU ar 13 Awst 2025, ac ar yr adeg honno byddant yn berthnasol i bob contract newydd a wneir ar gyfer prynu moch gan werthwr cymwys. Bydd cyfnod pontio pellach o 12 mis ar gyfer cytundebau presennol, ac ar ôl hynny bydd angen i bob contract o'r fath gydymffurfio â'r FDOP25 erbyn 13 Awst 2026.

## Crynodeb

6. Bwriedir i FDOP25 wneud cytundebau prynu moch yn fwy teg a chlir. Maent yn berthnasol i gontractau i brynu moch sy'n cael eu trefnu'n uniongyrchol rhwng "prynwyr" (er enghraifft proseswyr moch a lladd-dai) a "gwerthwyr cymwys". At y dibenion presennol, mae'r diffiniad "gwerthwr cymwys" yn cynnwys unrhyw berson, o fewn neu y tu allan i'r DU, sy'n ffermwr neu'n gynhyrchydd moch cynradd arall, neu'n brynwr moch gan fwy nag un gwerthwr cymwys nad ydynt yn cynnal unrhyw broses o brosesu'r cynnyrch cyn ei werthu ymlaen ("casglwr cynnyrch").
7. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y ddau barti mewn contract prynu moch yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ymlaen llaw. I sicrhau hyn (pan na fydd y gwerthwr cymwys wedi penderfynu datgymhwyso'r rheoliadau – gweler isod), mae'n ofynnol i gontractau ar gyfer prynu moch fod yn ysgrifenedig yn ddiofyn a dylent gynnwys y canlynol fel isafswm:

a) telerau clir ynghylch prisio sydd naill ai'n cynnig pris sefydlog a delir i werthwr cymwys fesul nifer o foch (pris sefydlog) neu fanylion y ffyrdd y bydd y pris yn cael ei bennu (pris amrywiol) neu gyfuniad o'r ddau. Pan ddefnyddir pris amrywiol, mae FDOP25 yn caniatáu i werthwyr cymwys ofyn am esboniad ysgrifenedig o sut y penderfynwyd ar y pris, oni bai bod y pris yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n dryloyw ac yn wiriadwy gan y gwerthwr cymwys. Yn unol â hynny, mae'r rheoliadau'n nodi nad oes angen esboniad ysgrifenedig lle mae o leiaf 97.5% o'r pris fesul nifer o foch yn cael ei bennu gan ffactorau gwrthrychol sy'n fesuradwy a hygyrch i'r gwerthwr cymwys a'r prynwr.

b) gwaharddiad ar newidiadau unochrog i'r contract prynu moch, sy'n golygu bod yn rhaid i'r gwerthwr cymwys a'r prynwr gytuno ar unrhyw newidiadau i gontract.

c) Telerau clir ar hyd contractau prynu moch a'r broses derfynu.

    a. Rhaid i gontractau prynu moch gynnwys dyddiad dechrau cyflenwi, os yw hyn yn wahanol i'r diwrnod y llofnodir y contract. O'r adeg honno, rhaid iddynt amlinellu hyd y cyfnod cyflenwi. Gall hyn fod yn hyd sefydlog neu ar sail fytholwyrdd.

    b. Bydd rheolau terfynu yn sicrhau sefydlogrwydd, gan sicrhau bod contractau yn cynnwys cyfnodau hysbysu perthnasol i werthwyr cymwys a phrynwyr i derfynu contract prynu moch sy'n 12 mis neu'n hwy. Bydd gan werthwyr cymwys hawl hefyd i derfynu unrhyw gontract prynu moch ar unwaith ac yn unochrog pan fydd amodau penodol wedi'u cyflawni. Darperir manylion pellach ar hyn yn yr adran "terfynu ar unwaith" isod.

ch) sicrwydd ynghylch y symiau a'r nifer o foch y mae prynwyr yn cytuno eu prynu (cytuno i'w casglu neu gael eu danfon atynt), yn ogystal â'r rhwymedi sydd ar gael os bydd methiant i gyflawni'r nifer hyn.

d) proses datrys anghydfod er mwyn i werthwyr cymwys allu codi materion gyda phrynwyr sy'n gysylltiedig â'r contract gwerthu moch. Os bydd angen, gall gwerthwyr cymwys uwchgyfeirio anghydfodau heb eu datrys ynghylch a oes cydymffurfiaeth â FDOP25 i Ddyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA). Yr ASCA sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a bydd yn ystyried yr holl gwynion perthnasol yn deg a diduedd (gweler canllawiau statudol Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol am fanylion pellach ar orfodi).

dd) Rhaid i bob contract gynnwys amod penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr weithredu'n ddidwyll mewn perthynas â'r contract.

e) Ar gyfer gwerthiannau nad oes angen y darpariaethau allweddol hyn ar eu cyfer, mae FDOP25 hefyd yn darparu ar gyfer hysbysiad i ddatgymhwyso.

Mae hyn yn gweithredu fel dull o eithrio o’r rheoliadau ac mae’n galluogi gwerthwyr cymwys i hysbysu prynwyr yn ysgrifenedig y bydd gwerthiant penodol neu gyfres o werthiannau wedi’u heithrio o’r gofynion rheoleiddio.

**Noder:** Gallai methiant i gyflawni ymrwymiadau cytundebol fod yn achos o dorri’r contract ond nid o dorri FDOP25. Felly, ceisiwch gyngor cyfreithiol annibynnol ar wahân yn y sefyllfa hon gan mai dim ond ag achosion o dorri FDOP25 y gall yr ASCA ddelio â hwy.

Pwysig:

Bwriedir i’r canllaw hwn helpu’r diwydiant i ddeall y rheolau newydd, fodd bynnag, dylai busnesau geisio **eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain bob amser ynglŷn â chydymffurfio â FDOP25 ac anghydfodau cytundebol posibl**.

## Contractau Newydd a Phresennol

9) O 13 Awst 2025, pan ddaw FDOP25 i rym, rhaid i bob **contract prynu moch newydd** gydymffurfio â’r rheolau hyn. Er mwyn caniatáu amser i’r diwydiant addasu’r trefniadau presennol, mae FDOP25 yn cynnwys cyfnod pontio pellach o 12 mis hyd at 13 Awst 2026 er mwyn i **gontractau prynu moch a oedd eisoes mewn grym cyn i FDOP25 ddod i rym (contractau ‘presennol’)** gydymffurfio. Os cyflenwir moch o dan gontractau o’r fath ar ôl i’r cyfnod pontio ddod i ben, rhaid i’r contractau hynny gydymffurfio â FDOP25.
10) Er ei bod fel arfer yn glir beth sy'n cyfrif fel contract 'newydd' neu 'bresennol', mae rhai achosion lle gall hyn fod yn aneglur. Er ein bod yn argymell bod pob parti yn ceisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain, gallai statws contractau yn ystod y cyfnod pontio fod fel a ganlyn:

a) **Senario 1**

**Contractau prynu moch newydd a lofnodwyd ar neu ar ôl 13 Awst 2025**

Pan fydd gwerthwr cymwys a phrynwr yn ymrwymo i gytundeb cyflenwi newydd ar neu ar ôl 13 Awst 2025, (ac ni chyhoeddir hysbysiad i ddatgymhwyso) bydd angen iddynt gytuno ar gontract yn ysgrifenedig a fydd yn cyflawni gofynion FDOP25.

b) **Senario 2**

**Contractau prynu moch presennol nad ydynt yn newid ar ôl 13 Awst 2025**

Pan fydd gan y partïon gontract prynu moch presennol a oedd mewn grym cyn 13 Awst 2025, gallent barhau i wneud cyflenwadau o dan y contract hwnnw hyd at 13 Awst 2026, ac ar ôl hynny bydd angen iddynt gydymffurfio â FDOP25. Rydym yn rhagweld y bydd y diwydiant yn

defnyddio’r cyfnod pontio hwn i sicrhau bod eu contractau presennol yn cyflawni gofynion FDOP25. Erbyn 13 Awst 2026, rhaid i bob contract prynu moch gydymffurfio.

c) **Senario 3**
**Contractau prynu moch presennol sy’n newid rhwng 13 Awst 2025 a 13 Awst 2026**
Mae’n bosibl y gallai amrywiadau a wneir i gontractau prynu moch presennol gynrychioli contract newydd a’i gynnwys o fewn gofynion FDOP25 cyn 13 Awst 2026. Felly rydym yn argymell pob parti i geisio eu **cyngor cyfreithiol eu hunain** i ganfod a yw unrhyw newidiadau a wneir i’r trefniant cyflenwi yn creu contract prynu moch newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddwy ochr yn glir ynghylch a yw'r contract prynu moch presennol yn parhau i weithredu neu a yw, mewn gwirionedd, wedi'i ddiddymu a'i ddisodli. O ddiwedd y cyfnod pontio, 13 Awst 2026, bydd pob contract prynu moch yn dod o dan delerau FDOP25.

Pwysig:

Pan fydd newidiadau rheoleiddiol yn cyflwyno gofynion cydymffurfiaeth newydd, er enghraifft fel gyda FDOP25, disgwylir i bob contract gydymffurfio’n llawn erbyn dyddiad diwedd y cyfnod pontio ar 13 Awst 2026. Gallai partïon ar ddwy ochr y cytundeb ddehongli’r dyddiad pontio yn anghywir fel cyfle i adael contractau yn gynharach nag a ganiateir gan y cyfnodau rhybudd cytundebol presennol. Nid yw FDOP25 yn dod i rym yn terfynu neu’n diystyru cyfnodau rhybudd cytundebol presennol yn awtomatig ac, felly, nid yw'n darparu rhyddhad unochrog o rwymedigaethau terfynu.

Mewn sefyllfaoedd pan fydd partïon yn bwriadu gadael cytundebau, dylid cynnal trafodaethau yn ddidwyll a chan roi sylw dyledus i rwymedigaethau cytundebol y cytunwyd arnynt. Lle mae cyfnodau rhybudd presennol yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad pontio, ac nid yw’r ddwy ochr wedi cytuno i derfynu yn gynnar, cynghorir busnesau'n gryf i geisio arweiniad cyfreithiol annibynnol, oherwydd y bydd y camau gweithredu priodol yn dibynnu ar delerau penodol y contract.

# Contractau Prynu Moch (Rhannau 2 a 3 FDOP25)

## Gofyniad i ddefnyddio contract prynu moch ysgrifenedig

**11)** Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau prynu moch a lofnodir ar neu ar ôl 13 Awst 2025 fod yn ysgrifenedig, er mwyn cyflawni mwy o dryloywder.

**12)** I werthwyr cymwys a phrynwyr sydd â chytundeb cyflenwi presennol a lofnodwyd cyn 13 Awst 2025, rhaid bod ganddynt gontract prynu moch ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofynion FDOP25 erbyn 13 Awst 2026, yn amodol ar unrhyw hysbysiad i ddatgymhwyso a gyhoeddir gan y gwerthwr cymwys ar gyfer unrhyw un o'r pryniannau o dan y contract hwnnw. Gellir cyflawni hyn naill ai trwy amrywio telerau contract prynu moch ysgrifenedig presennol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio neu drwy derfynu contract prynu moch presennol nad yw'n cydymffurfio a llunio un newydd sy'n cydymffurfio. Lle nad oes contract prynu moch ysgrifenedig eisoes ar waith, bydd angen i bob parti gytuno ar gontract prynu moch ysgrifenedig sy'n cydymffurfio a'i lofnodi.

13) Cynghorir partïon i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau bod eu contractau prynu moch yn cydymffurfio â FDOP25 oherwydd gellir cyflawni cydymffurfiaeth mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar y trefniadau cyflenwi presennol:

**a) Contract Ysgrifenedig Presennol sy'n cydymffurfio'n llawn â'r FDOP25**

Pan fydd contract ysgrifenedig sy'n cydymffurfio'n llawn eisoes mewn grym, nid oes angen unrhyw newidiadau i'r contract.

**b) Contract Ysgrifenedig Presennol sy'n cydymffurfio'n rhannol â'r FDOP25**

Pan fydd contract ysgrifenedig sy'n cydymffurfio'n rhannol eisoes mewn grym cyn 13 Awst 2025, rhaid cytuno ar gontract sy'n cydymffurfio'n llawn rhwng y partïon yn ysgrifenedig erbyn 13 Awst 2026. Gellir cyflawni hyn drwy gytuno ar ddiwygiadau i'r contract presennol yn ysgrifenedig, neu drwy ymrwymo i gontract newydd sy'n cydymffurfio'n llawn.

**c) Contract Llafar/Anffurfiol Presennol.**

Pan fydd cytundeb cyflenwi llafar mewn grym cyn 13 Awst 2025, rhaid cytuno ar gontract ysgrifenedig newydd sy'n cydymffurfio â FDOP25 a'i lofnodi erbyn 13 Awst 2026.

**ch) Dim contract presennol**

Pan fydd contract prynu moch newydd yn cael ei lofnodi ar neu ar ôl 13 Awst 2025, rhaid iddo fod yn ysgrifenedig a chydymffurfio'n llawn â FDOP25.

## Hysbysiad i ddatgymhwyso'r rheoliadau

14) Mae achosion pan na fydd y rheoliadau hyn yn briodol o bosibl, er enghraifft y farchnad gwerthu yn y fan a'r lle, felly gall gwerthwyr cymwys roi hysbysiad i ddatgymhwyso'r rheoliadau ar gyfer y mathau hyn o drafodion. Mae cyhoeddi 'hysbysiad i ddatgymhwyso' yn golygu nad yw'r

Rheoliadau, yn eu cyfanrwydd, bellach yn berthnasol i'r gwerthiannau dan sylw.

15) I drefnu gwerthiant, neu gyfres o werthiannau, y tu allan i'r rheoliadau, rhaid i'r gwerthwr cymwys ddarparu '**hysbysiad i ddatgymhwyso'r'** rheoliadau i'r prynwr yn eu hysbysu o'u bwriad. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod **yn** ysgrifenedig, naill ai mewn dogfen ffisegol neu ddogfen ddigidol, a rhaid ei chyhoeddi mewn cysylltiad â:

a) **Pryniannau penodedig; neu**
b) **Pob pryniant o fewn cyfnod penodedig**.

y mae'r gwerthwr cymwys wedi penderfynu na fydd y rheoliadau'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, ac er mwyn lleihau'r risg o unrhyw ddryswch neu anghydfodau yn y dyfodol rhwng y partïon, dylid nodi'r pryniannau neu amser perthnasol mor fanwl gywir â phosibl.

16) Gall gwerthwr cymwys dynnu hysbysiad i ddatgymhwyso yn ôl ar unrhyw bwynt cyn ymrwymo i'r contract (y contract a ddefnyddir i wneud y pryniannau a nodwyd yn yr hysbysiad). Fodd bynnag, ar ôl llofnodi'r contract hwnnw, bydd yr hysbysiad i ddatgymhwyso yn parhau i fod mewn grym ar gyfer y pryniannau hynny ac ni ellir eu gwrthdroi. Ar y pwynt hwnnw, os yw gwerthwr cymwys yn dymuno i'r rheoliadau fod yn berthnasol i'r pryniannau, dylent geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain ar y ffordd orau o derfynu'r contract presennol a chytuno ar un newydd y bydd y Rheoliadau'n berthnasol iddo.

## Fformat a hyd contractau prynu moch

**17)** Rhaid i gontract prynu moch fod yn ysgrifenedig ac wedi'i **lofnodi** gan y naill barti a'r llall er mwyn cydymffurfio â'r FDOP25. Gall hyn fod yn llofnod i ddogfen ffisegol neu ddogfen ddigidol gyda llofnod electronig. Caniateir y mathau canlynol o gontractau:

a) **Contractau Bytholwyrdd**
Mae'r contractau hyn yn rhedeg ar sail barhaus nes y bydd un parti yn penderfynu eu terfynu. Rhaid nodi'r weithdrefn ar gyfer terfynu'r contract, gan gynnwys cyfnodau hysbysu y mae'n rhaid i bob parti ei roi, yn y contract.

b) **Contractau Hyd Sefydlog**
Rhaid i'r contractau hyn gynnwys pwynt mewn amser y cytunwyd arno ymlaen llaw pan fyddant yn dod i ben. Rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar y

ffordd y bydd hyn yn cael ei strwythuro a gall fod yn ddyddiad penodol yn y dyfodol pan fydd y cytundeb yn dod i ben neu’r hyd o amser y bydd y cytundeb yn parhau mewn grym. Fel gyda chontractau bytholwyrdd, rhaid i gontractau hyd penodol o fwy na 12 mis nodi'r weithdrefn ar gyfer terfynu'r contract.

18) Rhaid i’r contract nodi a yw’n gontract hyd sefydlog neu’n gontract bytholwyrdd. Rhaid i’r contract nodi hefyd y dyddiad y bydd yr ymrwymiad i gyflenwi moch yn dechrau os yw’r dyddiad hwnnw’n wahanol i’r dyddiad pan lofnodwyd y contract.

# Prisio a Thalu (Rhan 4 FDOP25)

## Telerau talu

19) O dan FDOP25, mae angen i gontractau nodi sut a phryd y gwneir taliadau. Rhaid i bob contract gynnwys y dull talu ac amlder y taliadau, a rhaid iddynt nodi:
   a. Y dyddiad y gwneir y taliad cyntaf.
   b. Pa mor aml y gwneir y taliadau.
   c. Y dull o wneud y taliad.

## Strwythurau talu

20) Mae’r FDOP25 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau prynu moch ddefnyddio:

a) pris sefydlog, neu
b) pris amrywiol, neu
c) cyfuniad o’r ddau.

21) Mae “pris sefydlog” yn bris a nodir yn y contract prynu moch a fynegir fesul nifer o foch ac a fydd yn cael ei dalu gan y prynwr i’r gwerthwr cymwys ar gyfer y moch a gyflenwir yn unol â’r contract.

22) Mae “pris amrywiol” yn bris fesul nifer o foch a bennir ar yr adeg y gwneir y contract prynu moch ond a bennir yn unol â, neu drwy gyfeirio at, ffactorau a nodir yn y contract.

23) Pa bynnag ddull a ddefnyddir, rhaid mynegi’r pris “fesul nifer o foch”. Gan fod geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol yn y cyd-destun hwn ac i'r gwrthwyneb, mae hyn yn golygu y gellir mynegi prisiau fesul mochyn, fesul cilogram o fochyn neu unrhyw fetrig gwrthrychol arall.

## Contractau prisiau sefydlog

24) Gellir defnyddio mwy nag un pris sefydlog yn ystod oes y contract, ond os bydd y pris sefydlog yn cael ei newid yn ystod hyd y contract, rhaid i'r contract nodi'r dyddiadau dechrau a gorffen y bydd pob un o'r prisiau sefydlog yn berthnasol.

## Prisiau Sefydlog Amodau Eithriadol yn y Farchnad

25) Hyd yn oed pan gytunwyd ar bris sefydlog, gallai amodau eithriadol yn y farchnad olygu y bydd angen adolygu'r pris yn ystod y cytundeb. Er mwyn diogelu'r naill barti a'r llall a sicrhau bod hyn yn digwydd yn deg, rhaid i'r contract nodi gweithdrefn ar gyfer adolygu pris sefydlog os bydd amodau eithriadol yn y farchnad. Rhaid i'r contract nodi'n glir hefyd beth sy'n cynrychioli amodau eithriadol yn y farchnad lle gellir adolygu prisiau sefydlog.

26) Rhaid i'r weithdrefn ar gyfer adolygu prisiau ddarparu ar gyfer, pan fydd y gwerthwr cymwys yn gwneud cais am adolygiad, bod yn rhaid i'r prynwr wahodd y gwerthwr cymwys i gael trafodaeth ar y newidiadau arfaethedig i'r prisiau o fewn 30 diwrnod.

27) Fel rhan o'r broses hon, bydd yn rhaid i'r naill barti a'r llall adolygu'r pris taladwy ac ystyried a oes angen newid ai peidio. **Pan fydd cytundeb** rhwng y partïon, rhaid diwygio'r contract yn ysgrifenedig i adlewyrchu'r pris newydd. Cynghorir partïon i'r contract i gynnwys darpariaethau sy'n nodi beth fydd yn digwydd os na ellir dod i gytundeb.

## Contractau prisiau amrywiol

28) Mae contractau prisiau amrywiol eisoes yn gyffredin yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r ffactorau a ddefnyddir i benderfynu ar brisiau moch gael eu hamlinellu'n glir a bod angen i'r gwerthwyr cymwys a'r prynwyr gytuno arnynt ymlaen llaw.

29) Pan fydd contract prynu moch yn defnyddio pris amrywiol (naill ai mewn cyfuniad gyda phris sefydlog ai peidio) rhaid gwneud hynny yn unol â'r gofynion canlynol:

a) rhaid i'r contract nodi'r ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo pris y mochyn (er enghraifft, fel rhan o fformiwla), neu y mae'n rhaid i'r prynwr roi sylw dyledus iddynt wrth bennu pris y mochyn.

b) rhaid i’r contract amlinellu’r cyfnodau o amser y bydd pob cyfres o ffactorau yn berthnasol iddynt, gan gynnwys y dyddiadau dechrau a gorffen. Gall fod naill ai un set o ffactorau sy'n berthnasol am hyd cyfan y contract, neu ffactorau gwahanol sy'n berthnasol ar wahanol adegau.

c) rhaid i’r contract gynnwys gwybodaeth am ba mor aml y bydd y prisiau’n cael eu pennu.

30) Gall y ffactorau a ddefnyddir i bennu prisiau moch gynnwys ystod o fetrigau preifat neu gyhoeddus.

<u>Er enghraifft</u>, gallai contractau nodi mai’r pris i’w dalu yw Pris Safonol Mochyn (SPP), mesur o’r Gost Cynhyrchu (COP) (preifat neu gyhoeddus), neu i’w bennu yn unol â chyfuniad o’r ffactorau hyn ac eraill.

31) Gall contract nodi hefyd bod rhai ffactorau'n cael eu pwysoli'n drymach wrth bennu'r pris.

## Pan fydd pris amrywiol yn newid

32) Mae’r FDOP25 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau prynu moch amlinellu pa mor aml y bydd y pris fesul nifer o foch yn cael ei bennu.

33) Ar ôl pennu pris, mae’r FDOP25 yn rhoi hawl i’r gwerthwr cymwys ofyn am esboniad ysgrifenedig o sut y pennwyd y pris. Pan fydd y pris wedi’i bennu gan y prynwr, rhaid i hyn gynnwys sut y dylanwadodd y ffactorau y rhoddodd y prynwr ystyriaeth ddyledus iddynt ar y pris.

34) Rhaid i’r gwerthwr cymwys wneud cais am yr esboniad ysgrifenedig, yn ysgrifenedig i’r prynwr. Rhaid i’r prynwr ddarparu’r esboniad o fewn saith diwrnod i’r diwrnod y cyflwynwyd y cais. Dim ond unwaith y gall gwerthwyr cymwys ofyn am yr esboniad ysgrifenedig hwn bob tro y pennir y pris.

35) **Nid** yw’r ddarpariaeth hon **yn berthnasol** pan bennir y pris yn ôl ffactorau sydd eisoes yn **dryloyw a hygyrch** i raddau helaeth. Yn benodol, os pennir 97.5% neu fwy o'r pris fesul nifer o foch gan ddefnyddio fformiwla yn y contract sy'n defnyddio ffactorau gwrthrychol y gellir eu mesur ac sy'n hygyrch i'r ddwy ochr, yna nid oes gan y gwerthwr cymwys yr hawl i ofyn am esboniad ysgrifenedig.

36) Mae ffactorau sy'n hygyrch i'r ddwy ochr yn cynnwys y rhai y gall gwerthwr cymwys eu gwirio drostynt eu hunain, er enghraifft metrigau sydd ar gael i'r cyhoedd (fel y Pris Moch Safonol) neu'r rhai sydd eisoes yn cael eu rhannu

rhwng gwerthwyr a phrynwyr cymwys (fel metrigau Cost Cynhyrchu sydd naill ai ar gael i'r cyhoedd neu sy'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio data sydd ar gael i'r gwerthwr cymwys).

## Gwiriad annibynnol ar gyfer pris amrywiol

37) Gall rhai o’r ffactorau a ddefnyddir gan brynwyr i bennu pris eu moch fod yn fasnachol sensitif, er enghraifft prisiau gwerthu ymlaen neu elw. Pan fydd hyn yn wir, nid yw’n ofynnol i brynwyr ddatgelu’r wybodaeth hon i’r gwerthwr cymwys.

38) Fodd bynnag, pan fydd y partïon wedi cytuno i ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol o’r fath i bennu pris y moch, rhaid i’r contract prynu moch gynnwys gweithdrefn lle gall gwerthwyr cymwys gyfeirio’r esboniad o sut y pennwyd y pris at drydydd parti a all wirio bod y wybodaeth gyfrinachol yn gywir ac yn cefnogi’r esboniad a roddwyd o’r pris. Mae hyn er mwyn sicrhau tryloywder a hefyd mae’n diogelu data eu prynwyr sy’n ddata masnachol sensitif.

39) Rhaid i’r prynwr gydweithio â’r trydydd parti annibynnol a darparu'r wybodaeth a'r dogfennau y gofynnir amdanynt yn rhesymol ganddynt.

40) Gall y person annibynnol fod yn unrhyw unigolyn neu sefydliad y bydd y ddau barti wedi cytuno arnynt, er y byddem yn disgwyl iddynt fod yn weithiwr proffesiynol gyda phrofiad perthnasol a fyddai’n eu galluogi i wirio’r wybodaeth gyfrinachol, er enghraifft cyfrifwyr, cyfreithwyr neu ymgynghorwyr busnes.

41) Rhaid i’r contract prynu moch nodi hefyd sut y bydd costau’r person annibynnol yn cael eu rhannu rhwng y partïon.

# Y nifer i’w cyflenwi (Rhan 5 FDOP25)

42) Mae’r FDOP25 yn cyflwyno rheolau ynghylch yr hyn y gall gwerthwyr a phrynwyr cymwys gytuno arno ynghylch y nifer o foch a gyflenwir.

43) Felly, rhaid i gontract prynu moch gynnwys y nifer o foch i’w darparu o fewn cyfnod penodol o amser.

44) Gall contract prynu moch nodi goddefiannau h.y. gall amlinellu'r nifer uchaf ac isaf a dderbynnir, gan gynnwys amrywiad canrannol derbyniol o'r symiau penodedig.

45) Pan fydd posibilrwydd y gall y nifer y moch i'w cyflenwi newid drwy gydol y contract prynu moch, rhaid i'r contract amlinellu'r broses ar gyfer gallu trefnu hyn, a pha mor aml y gellir gwneud hynny.

46) Rhaid i'r contract nodi hefyd y rhwymedi sydd ar gael i'r prynwr pan fydd nifer y moch a gyflenwyd yn is na'r isafswm a nodwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Pan fydd y cyflenwad yn is na'r disgwyl, gallai fod sawl rheswm am hyn a gallai'r contract gynnwys gwahanol atebion ar gyfer gwahanol senarios.

# Amrywiol (Rhan 6 FDOP25)

## Casglu neu ddanfon moch

47) O dan FDOP25, rhaid i'r contract prynu moch nodi'r trefniadau ar gyfer casglu neu ddanfon moch. Yn benodol, rhaid i'r contract nodi a fydd:

   a. Moch yn cael eu casglu gan y gwerthwr cymwys gan, neu ar ran, y prynwr.

   b. Moch yn cael eu danfon at y prynwr gan, neu ar ran, y gwerthwr cymwys.

48) Rhaid i'r contract prynu moch amlinellu pryd a pha mor aml y bydd y casgliadau neu'r danfoniadau hyn yn cael eu cynnal.

49) Rhaid i'r contract hefyd nodi'r rhwymedi sydd ar gael i'r gwerthwr cymwys a'r prynwr pan fydd y casgliad neu ddanfoniad o foch yn methu cydymffurfio â thelerau'r contract prynu moch. Er enghraifft, pan na fydd prynwr yn derbyn neu'n casglu'r nifer o foch y mae'r gwerthwr cymwys wedi cytuno eu darparu.

## Force Majeure

50) O dan FDOP25, rhaid i bob contract prynu moch gynnwys darpariaeth sy'n nodi'r effaith ar y gwerthwr cymwys a'r prynwr pan fydd gweithredoedd, digwyddiadau neu amgylchiadau penodol yn digwydd a oedd yn

anrhagweladwy ac na ellid bod wedi'u hosgoi ac sy'n atal y naill barti neu'r llall rhag gallu cyflawni eu rhwymedigaethau yn unol â'r contract ('digwyddiadau Force Majeure').

51) Mae'r gweithredoedd, digwyddiadau neu amgylchiadau penodol a fydd yn gyfystyr â digwyddiad force majeure ym mhob contract prynu moch yn fater i'r partïon gytuno arno a rhaid ei ysgrifennu yn y contract.

52) Gallai enghreifftiau gynnwys achosion difrifol o glefydau ar fferm, digwyddiadau tywydd eithafol neu drychinebau naturiol.

## Hysbysiadau o dan gontract prynu moch

53) Mae FDOP25 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau prynu moch nodi sut y mae'n rhaid rhoi hysbysiadau o dan y contract. Rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol i unrhyw hysbysiadau o'r fath fod yn ysgrifenedig a'u bod yn cael eu hanfon naill ai drwy e-bost neu drwy ddull post sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd lofnodi ar ôl ei dderbyn. Rhaid i'r contract hefyd ddarparu, pan anfonir yr hysbysiad drwy'r post, bod angen ei gyfeirio'n briodol a'i dalu ymlaen llaw.

54) Rhaid i'r contract ddarparu yr ystyrir bod hysbysiad sy'n cydymffurfio yn cael ei gyflwyno:

   a. pan ddefnyddir e-bost, ar yr adeg y byddai'r hysbysiad yn cael ei ddosbarthu wrth wneud defnydd arferol o'r gwasanaeth e-bost, neu,
   b. pan ddefnyddir y gwasanaeth post, ar yr adeg y byddai'r hysbysiad yn cael ei ddosbarthu wrth wneud defnydd arferol o'r gwasanaeth post.

55) Rhaid i'r contract nodi mai'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth drwy'r post ar gyfer partïon yw eu cyfeiriad busnes arferol oni fydd parti yn nodi cyfeiriad amgen. Os bydd cyfeiriad amgen i'w ddefnyddio, rhaid iddo gael ei gynnwys yn y contract.

## Amrywiad o'r Telerau

56) Rhaid i gontract prynu moch ddarparu y bydd yn rhaid i'r prynwr a'r gwerthwr cymwys **gytuno'n ysgrifenedig** ar unrhyw amrywiad i'w delerau.

## Datrys Anghydfod (Rhan 7 y FDOP25)

57) Mae'r FDOP25 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys gweithdrefn datrys anghydfod ym mhob contract gan nodi sut y gallai gwerthwr cymwys wneud cwyn i'r prynwr mewn cysylltiad â'u contract prynu moch.

58) Rhaid i'r weithdrefn datrys anghydfod nodi:

a) Bod yn rhaid i'r gwerthwr cymwys wneud y gŵyn i'r prynwr drwy roi hysbysiad ysgrifenedig

b) Manylion cyswllt y person y dylid rhoi hysbysiad y gwerthwr cymwys iddynt.

c) Ar ôl i'r prynwr dderbyn y gŵyn ysgrifenedig, byddant yn ymchwilio ac yn cymryd camau rhesymol i ddatrys y gŵyn.

### Uwchgyfeirio anghydfod

59) Y gobaith yw y gellir datrys y rhan fwyaf o'r problemau a allai godi mewn perthynas â chontractau prynu moch rhwng y partïon drwy'r gweithdrefnau datrys anghydfodau a nodir yn y contractau.

60) Fodd bynnag, pan fydd anghydfod ynglŷn ag achos posibl o dorri FDOP25 sy'n parhau heb ei ddatrys ar ôl 28 diwrnod o gael ei godi gyda'r prynwr o dan y weithdrefn datrys anghydfod, gall gwerthwyr cymwys gyfeirio'r gŵyn at Ddyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol ymchwilio iddi.

## Terfynu (Rhan 8 FDOP25)

61) Mae FDOP25 yn darparu rheolau ynglŷn â'r darpariaethau ar derfynu y mae'n rhaid eu cynnwys mewn contractau prynu moch.

### Terfynu contractau bytholwyrdd neu sefydlog o 12 mis neu fwy

62) Rhaid i bob contract prynu moch, sy'n fytholwyrdd neu sydd â hyd penodol o fwy na 12 mis, nodi proses y gellir terfynu'r contract yn unol â hi (y 'broses derfynu').

63) Rhaid i'r broses derfynu nodi'r cyfnod hysbysu sy'n ofynnol gan y gwerthwr cymwys neu'r prynwr i derfynu'r contract heb gydsyniad y parti arall.

64) Rhaid i'r broses derfynu nodi bod yn rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir i derfynu contract gynnwys y dyddiad y terfynir y contract.

## Terfynu Ar Unwaith

65) Rhaid i bob contract prynu moch ddarparu hefyd y gall y gwerthwr cymwys derfynu contract prynu moch ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r prynwr:

a. Pan fydd y prynwr yn ansolfent.

b. O fewn 14 diwrnod ar ôl i'r gwerthwr cymwys ddod yn ymwybodol bod y prynwr yn torri'r contract yn sylweddol.

c. Pan fydd y prynwr yn methu gwneud taliad yn unol â'r contract prynu moch a bod y gwerthwr cymwys yn rhoi rhybudd i'r prynwr ynghylch y methiant hwnnw; o fewn 21 diwrnod o roi'r hysbysiad hwnnw os na wnaed y taliad o fewn 7 niwrnod i'r un hysbysiad.

ch. O fewn 14 diwrnod i'r trydydd achlysur pan fydd y prynwr yn methu gwneud y taliad yn unol â'r contract prynu moch.

d. O fewn 14 diwrnod i farwolaeth person a nodir yn y contract prynu moch fel rhywun y mae eu marwolaeth yn galluogi i'r contract prynu moch gael ei derfynu.

dd. O fewn 14 diwrnod o orfodi gofyniad i'r prynwr dalu cosb sifil neu iawndal o dan FDOP25.

## Darpariaethau ychwanegol

66) Mae FDOP25 yn gwahardd newidiadau i'r dull prisio neu'r pris a delir am foch a wneir gan y prynwr oherwydd bod hysbysiad terfynu'n cael ei gyhoeddi gan y gwerthwr cymwys.

67) At hynny, mae FDOP25 yn gwahardd unrhyw reol rhag cael ei chynnwys yn y contract prynu moch y bydd hysbysiad terfynu ond yn gallu cael ei gyhoeddi gan y gwerthwr cymwys ar ddiwrnod penodol.

Pwysig:

Yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd a'r dull gweithredu a argymhellir ar gyfer busnesau, dylai'r ddwy ochr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol wrth derfynu contract prynu moch.

## Rhestr Termau

Yn y canllaw hwn-

- “contract prynu moch” yw contract a wneir gan brynwr at y diben o brynu moch gan werthwr cymwys;
- “y partïon” mewn cysylltiad â chontract prynu moch yw’r prynwr a’r gwerthwr cymwys sy’n rhan o’r contract;
- “prynwr” yw, mewn cysylltiad â phrynu moch, person sy’n prynu moch wrth gynnal busnes sy’n cynnwys prynu cynhyrchion o’r math hwnnw;
- “gwerthwr cymwys” yw gwerthwr cymwys yn unol ag adran 29(3)(b) Deddf Amaethyddiaeth 2020;
- “contract hyd sefydlog” yw contract prynu moch a fydd yn terfynu wrth i gyfnod penodol ddod i ben neu ar ddyddiad penodedig;
- “nifer o foch” yw’r swm o foch i’w cyflenwi. Gall hyn fod yn nifer o foch neu’n symiau o foch. Er enghraifft, y pwysau i’w gyflenwi mewn cilogramau neu fetrig arall;
- “pris sefydlog” yw pris, a nodir yn y contract prynu moch, a fynegir fesul nifer o foch a delir gan y prynwr i’r gwerthwr cymwys am foch a gyflenwir o dan y contract hwn;
- “contract bytholwyrdd” yw contract prynu moch a fydd yn parhau hyd nes y bydd un o’r partïon yn ei derfynu;
- “pris amrywiol” yw pris fesul nifer o foch nad yw’n sefydlog ar y pwynt y gwneir y contract ond sy’n cael ei bennu yn unol â, neu gan y prynwr, gan gyfeirio at ffactorau a nodir yn y contract prynu moch.